## CYNNIG CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## MESUR SENEDDOL CYRFF CYHOEDDUS

### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Mesur Seneddol Cyrff Cyhoeddus, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 28 Hydref 2010, a'r rheini'n ddarpariaethau sy’n ymwneud â chyrff a swyddi cyhoeddus penodol, i’r graddau y mae’r cyrff a'r swydd-ddeiliaid hynny yn arfer swyddogaethau yng Nghymru a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

### Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Brif Weinidog Cymru o dan Reol Sefydlog 26.4 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"). Gosodir y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 26.2. Mae Rheol Sefydlog 26 yn nodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol os oes unrhyw Fesur Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben a ddaw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu a fydd yn dwyn effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cyflwynwyd y Mesur Seneddol Cyrff Cyhoeddus (y "Mesur Seneddol") i Dŷ'r Arglwyddi ar 28 Hydref 2010. Cewch gopi o'r Mesur Seneddol yn:

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201011/ldbills/025/11025.i-ii.html

### Crynodeb o'r Mesur Seneddol a’i amcanion polisi

4. Pwrpas y Mesur yw sicrhau gwell atebolrwydd, tryloywder ac effeithlonrwydd yn y Llywodraeth drwy ostwng nifer y cyrff cyhoeddus (cwangos) a lleihau eu cost. Mae Cymalau 1 i 6 o'r Mesur Seneddol fel y'i cyflwynwyd yn darparu pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion y Goron mewn perthynas â'r cyrff a restrir yn Atodlenni 1 i 6 y Mesur hwnnw. Gellid crynhoi'r pwerau fel a ganlyn:

   - Mae Cymal 1 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron ddiddymu corff neu swydd a restrir yn Atodlen 1 drwy orchymyn;
   - Mae Cymal 2 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron uno unrhyw rai o'r cyrff neu'r swyddi a restrir yn Atodlen 2 drwy orchymyn;
   - Mae Cymal 3 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron addasu trefniadau cyfansoddiadol corff neu swydd a restrir yn Atodlen 3 drwy orchymyn;

- Mae Cymal 4 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron addasu trefniadau ariannu corff neu swydd a restrir yn Atodlen 4 drwy orchymyn;

- Mae Cymal 5 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron drwy orchymyn addasu swyddogaethau corff neu swydd-ddeiliad a restrir yn Atodlen 5, neu drosglwyddo swyddogaethau corff neu swydd-ddeiliad o'r fath i berson cymwys (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru);

- Mae Cymal 6 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron drwy orchymyn awdurdodi corff neu swydd-ddeiliad a restrir yn Atodlen 6 i ddirprwyo'i holl swyddogaethau neu rai ohonynt i berson cymwys (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru);

- Mae Cymal 23 yn darparu pŵer i Weinidog y Goron, mewn cysylltiad â gorchymyn o dan gymalau 1 i 6, wneud cynllun i drosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau. Os yw'r cynllun yn cael ei wneud gan Weinidog y Goron rhaid i'r eiddo, hawliau a rhwymedigaethau gael eu trosglwyddo i berson cymwys (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru) neu i gorff corfforaethol, oni bai bod trefniadau cyfansoddiadol neu ariannu yn cael eu haddasu o dan gymalau 3 neu 4. Mewn achos o'r fath, rhaid trosglwyddo i Weinidog y Goron.

5. Yng Nghymal 13 mae'r Mesur Seneddol yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn addasu a throsglwyddo swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a, chyhyd â'u bod yn ymwneud â Chymru, addasu a throsglwyddo swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiynwyr Coedwigaeth. Bydd y Mesur Seneddol hefyd yn cael ei ddiwygio i alluogi swyddogaethau Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Cymru i gael eu haddasu neu'u trosglwyddo yn yr un modd. Mae'r cymal hwn hefyd yn darparu pŵer i sefydlu corff newydd er mwyn derbyn ac arfer swyddogaethau o'r fath. Bydd hyn yn golygu y gellir ad-drefnu i greu strwythur addas er mwyn cyflawni swyddogaethau amgylcheddol yng Nghymru. Diben hyn yw sefydlu dull gweithredu mwy integredig yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn *Cymru Fyw*, Fframwaith Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr Amgylchedd Naturiol. Mae’r Mesur Seneddol hefyd yn darparu pŵer i drosglwyddo swyddogaethau datganoledig sy'n ymwneud â'r amgylchedd wrth Weinidogion Cymru a'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n arfer swyddogaethau o'r fath yng Nghymru.

6. Yng Nghymal 9, mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru os mai un o effeithiau gorchymyn a wnaed o dan gymalau 1 i 6 yw addasu rhai swyddogaethau penodol sy'n perthyn i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol.

**Y darpariaethau yn y Mesur Seneddol y gofynnir am Gydsyniad iddynt**

7. Mae'r Mesur Seneddol yn un galluogol. Mae hyn yn golygu mai drwy orchmynion a gyflwynir o dan y Mesur Seneddol y gwneir unrhyw brif ddarpariaeth sy'n effeithio ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlenni 1 i 6, ac nid drwy'r Mesur Seneddol ei hun. Felly, hyd nes y bydd cynigion yn dod i law ni fydd yn bosibl datgan i ba raddau y gallai'r cynigion hynny ddod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Serch hynny, mae modd arfer y pwerau gwneud gorchmynion mewn perthynas â chyrff sy'n cyflawni swyddogaethau datganoledig yng Nghymru - swyddogaethau a allai fod yn destun cymhwysedd deddfwriaethol o dan Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

8. Gall gorchmynion o dan y Mesur Seneddol gynnwys darpariaeth y medrid fel arall ei gwneud gan Fesur Cynulliad, neu ddarpariaeth a allai ddwyn effaith negyddol ar y cymhwysedd perthnasol petai rhai o'r cyrff a restrir yn Atodlen 1 yn cael eu diddymu. Gallai hyn fod yn berthnasol i gymhwysedd o dan Feysydd 6 (yr amgylchedd), 10 (priffyrdd a thrafnidiaeth), 11 (tai), 12 (llywodraeth leol), 16 (chwaraeon a hamdden) a 18 (cynllunio).

9. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i gyflwyno gwelliannau i'r Mesur Seneddol er mwyn darparu y byddai angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar orchymyn o dan gymalau 1 i 6 er mwyn gwneud darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol petai'r ddarpariaeth honno yn rhan o Fesur neu Ddeddf gan y Cynulliad Cenedlaethol.

10. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cytuno i gyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chyrff sy'n arfer swyddogaethau datganoledig, ac a gyfansoddwyd yng Nghymru neu sydd ar gyfer ardaloedd sy'n bennaf yng Nghymru, os oes cyrff cyfatebol yn bodoli yn Lloegr neu'n bodoli ar gyfer ardaloedd sy'n bennaf yn Lloegr. Bydd y gwelliannau hyn yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru, sy'n cymharu â'r pwerau hynny i wneud gorchmynion o dan gymalau 1 i 6 sydd ar hyn o bryd wedi'u rhoi i Weinidogion y Goron. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu polisïau y cytunwyd arnynt, yn arbennig ym maes rheoli llifogydd a dŵr.

11. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnwys pŵer i addasu trefniadau cyfansoddiadol a swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol ar gyfer ardaloedd sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ynghyd â phŵer i addasu trefniadau ariannu arolygiaeth dŵr yfed Cymru. Bydd hefyd yn rhoi pwerau i addasu trefniadau cyfansoddiadol a swyddogaethau awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a'u galluogi i gychwyn ar drefniadau asiantaeth â chyrff eraill.

**Manteision defnyddio'r Mesur Seneddol hwn**

12. Barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw ei bod yn briodol defnyddio'r Mesur Seneddol i ymdrin â'r pwerau a fydd yn galluogi i rai o swyddogaethau amgylcheddol cyrff penodedig gael eu trosglwyddo i gyrff eraill, ac a fydd yn galluogi i gorff newydd gael ei sefydlu i dderbyn ac ymgymryd â swyddogaethau cyflawni ym maes yr amgylchedd yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw mai'r Mesur Seneddol hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn berthnasol i Gymru. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i fynd ati mewn ffordd fwy integredig i gyflawni'r polisïau amgylcheddol a amlinellir yn *Cymru Fyw* ac i ymateb i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

13. Mae'r Mesur Seneddol yn darparu pwerau i Weinidogion y Goron gyflwyno gorchmynion sy'n ymwneud â'r cyrff cyhoeddus a restrir yn Atodlenni 1 i 6 y Mesur hwnnw. Bydd y rheidrwydd i gael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i unrhyw ddarpariaethau mewn gorchymyn o dan gymalau 1 i 6 a fyddai'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, yn golygu y bydd cyfle llawn gan y Cynulliad i ystyried goblygiadau unrhyw gynigion o'r fath.

14. Diben y pwerau gwneud gorchmynion yn y Mesur Seneddol Cyrff Cyhoeddus yw galluogi Gweinidogion y DU i fwrw ati â'r cynigion a gyhoeddwyd ar 14 Hydref 2010 i ddiwygio nifer sylweddol o gyrff cyhoeddus y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt. Yn sgil y cynnig i roi pwerau gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru, serch hynny, yng Nghymru y gwneir y penderfyniadau ynghylch unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar gyrff neu swyddi sydd â swyddogaethau a ddatganolwyd i Gymru, a sefydlwyd yng Nghymru neu sy'n gwasanaethu rhanbarthau yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol**

15. Nid ydym yn rhagweld y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru na chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ysgwyddo costau newydd o ganlyniad uniongyrchol i'r darpariaethau yng nghymalau 1 i 6 o'r Mesur Seneddol ei hun. Efallai y bydd gan orchmynion a gyflwynir gan Weinidogion y DU o dan y Mesur Seneddol oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru - o ran costau ac arbedion - ond nid yw'n bosibl mesur unrhyw gostau nac arbedion o'r fath oni bai a hyd nes y cyflwynir cynigion penodol.

16. Os bydd costau yn codi yn sgil cynigion a gyflwynir gan Weinidogion y DU, bydd Datganiad o Bolisi Cyllid y Trysorlys yn berthnasol (Trysorlys EM, Hydref 2010). Mae hwn yn darparu (ym mharagraff 8 o adran 3.2) fel a ganlyn:

"where decisions taken by any of the devolved administrations or bodies under their jurisdiction have financial implications for departments or agencies of the United Kingdom Government or, alternatively, decisions of United Kingdom departments or agencies

lead to additional costs for any of the devolved administrations, where other arrangements do not exist automatically to adjust for such costs, the body whose decision leads to the additional cost will meet that cost."

17. Felly, petai Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynnig penodol ar gyfer newidiadau i gyrff cyhoeddus, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl y cynhelid trafodaeth ynghylch unrhyw gostau ychwanegol y gallai bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu hysgwyddo yn sgil y cynnig hwnnw. Mae hefyd yn disgwyl mai Llywodraeth y DU fyddai'n talu'r costau hynny.  Yn ogystal â chostau, gallai newidiadau o'r fath i gyrff cyhoeddus arwain at arbedion.  Mae'n bosib y gellid bod, ar adegau, wahaniaeth barn ynghylch maint y costau neu'r arbedion posibl, a sut y dylid eu trafod neu eu priodoli.  Eler i'r afael â materion o'r fath fesul achos.

[Y Gwir Anrh.] Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru